

Trosolwg

Wednesday, October 30, 2019

4:05 PM

Teitl aseiniad: Paratowch bortffolio sy'n cyfleu adfyfrio beirniadol ar gynnydd a wnaed o ran cynllunio a gweithredu tair egwyddor addysgegol.

Enw myfyriwr: Nerys Wyn Williams

Rhif myfyriwr: 1901692






Llwybr dysgu: TAR Uwchradd Cymraeg gyda SAC.

Linc: https://uowtsd-my.sharepoint.com/:o:/g/personal/1901692_student_uwtsd_ac_uk/EmsG_wcCFP9AqkRexnDnRFYBfssMyPbrcx73nr_D0K_9KA?e=6svxU5


Asesu ar gyfer dysgu egwyddor 1

Wednesday, October 30, 2019 4:05 PM

Blwyddyn 9 set 1 (Atodiad 1)



Blwyddyn 11 set 6



Enghreifftiau o hunanasesu gan flwyddyn 9 set 1 wrth iddynt ysgrifennu adroddiad am fywyd Hedd Wyn a blwyddyn 11 set 6 wedi ysgrifennu erthygl am yr amgylchedd. Ffocws y wers oedd hunanasesu'r dasg drwy ddefnyddio'r rhestr wirio a'r meini prawf llwyddiant a drwy ddefnyddio cod lliw. Dyma fel mae'r adran yn hunanasesu gan felly dilyn eu canllawiau nhw cynlluniais wers ar gyfer gwblhau'r gweithgaredd. Yn y lluniau cyntaf gwelir gwaith blwyddyn 9 lle roeddent wedi defnyddio'r rhestr wirio a meini prawf llwyddiant i hunanasesu ei gwaith gan hefyd ymateb i dargedau a rhoddais ar y gwaith mewn lliw beiro gwahanol. Mantais hyn yw'r gallu i ddysgwyr gofyn a chwestiynu am yr hyn a oedd yn llwyddiannus yn ei gwaith a hefyd sylwadau ar gyfer cynnydd. Yn yr ail gyfres o luniau defnyddiais union yr un dull gan ychwanegu lle i ddysgwyr blwyddyn 11 set 6 i roi adborth ar waith ei hun. Roedd hyn yn fanteisiol wrth i ddysgwyr gallu ystyried yr hyn sydd angen iddynt wella erbyn y tro nesaf gan wneud y targed yn fwy gweithredol iddynt.



Dyma ffyn loli ddosbarth blwyddyn 7. Cefais darged o ddod i adnabod enwau'r disgyblion er mwyn datblygu fy nghwestiynu a disgyblu. Felly wrth dderbyn lluniau o ddysgwyr a chynlluniau bwrdd a chreu'r ffyn loli roeddwn yn datblygu hyder ac yn dod i adnabod y dysgwyr. Er mwyn datblygu hyn dechreuais ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau er mwyn ddysgu enwau a datblygu'r gallu i gwestiynu ar hap yn fwy llyfn. Defnyddiais classtools ac adnoddau tebyg a oedd yn dewis enwau ar hap. Er bod yr adnoddau yma yn hynod o ddefnyddiol, roedd nifer o ddysgwyr ddim yn hoffi'r rhain gan oeddent allu gweld ei henwau ar y sgrin. Hefyd trwy ddefnyddio'r adnoddau yma roeddwn yn ddibynnol ar y we i weithio a hefyd roedd yn arafu llif y wers yn ormodol.

Blwyddyn 10 set 3 (Atodiad 3)



Blwyddyn 7



Defnyddiais gardiau goleuadau traffig er mwyn asesu dealltwriaeth dysgwyr o flwyddyn 7 a blwyddyn 10 set 3. Wedi cyfres o wersi fe wnes i ofyn i ddysgwyr blwyddyn 10 i roi marc ar y cerdyn (coch, oren neu gwyrdd) er mwyn dangos ei dealltwriaeth o'r gerdd a oeddent wedi ei hastudio ar gyfer eu harholiad TGAU. Mantais hyn oedd yn amlwg gweld dealltwriaeth y dysgwyr ond roeddwn yn dibynnu arnynt i fod yn onest ac wrth edrych yn ôl efallai fyddai roi dau opsiwn (coch neu gwyrdd) yn well gan i nifer roi tic ar oren ac anodd felly oedd asesu beth yn union nad oedd y dysgwyr wedi deall. Yn wahanol gyda fy mlwyddyn 7 fe wnes i roi set o gardiau i bob disgybl er mwyn iddynt fonitro cynnydd ei hunain wrth ysgrifennu ei llythyr (tasg asesu) a gallu dangos ei dealltwriaeth o fewn y wers er mwyn i mi ymateb i unrhyw heriau yn gynt.

Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd egwyddor 2



Wednesday, October 30, 2019 4:05 PM

Blwyddyn 9 set 1 (Atodiad 4)



Draw	Design	Layout	References	Mailings	Review	View	Help								
Prifysgol Cymru University of Wales Twenty Saint David Yr Athrofa Institute of Education Adding a Future to Education for Wales PDPA Privacy and Data Protection Act															
Cynllun Gwers Cam 1 Cynllun Gwers – Cam 1 Cynllun Gwers <table border="1"> <tr> <td>Darpar Athro:</td> <td>Nerys Williams</td> <td>Dodparth:</td> <td>9/9 set 1</td> </tr> <tr> <td>Mam Dygu:</td> <td>Cymraeg (Iaith Gyntaf)</td> <td>Dyddiad:</td> <td>02/12/2019</td> </tr> </table> Creu adnodd ar gyfer amgueddfa HW Ugert: Cyflwyno syniadau a materion yn llawn argyhoeddiad gan ddefnyddio amryw o dechnegau i greu effaith. Yn hyderus, defnyddio iaith ffurfiol ac anffurfiol yn brodorol mewn gwahanol setyllfaoedd. Ystyried perthnasedd ac arwyddocaedd gwybodaeth a syniadau gyflwynwyd iddynt. Nodi bod amrywiaeth o ddefnyddiau o ran camau gweithredu a dod i gyfundeb er mwyn cyflawni amcanion y grŵp. Darllen: Defnyddio'r gwybodaeth am gynnwys a chyd-destun Canolfwyntio wrth ddarllen testunau, ac yn ymgyrchu ac ar bapur, sydd yn newydd iddynt gan ddefnyddio'r gwybodaeth sydd iddynt. Cymharu a chyflwynu themâu a materion ar draws								Darpar Athro:	Nerys Williams	Dodparth:	9/9 set 1	Mam Dygu:	Cymraeg (Iaith Gyntaf)	Dyddiad:	02/12/2019
Darpar Athro:	Nerys Williams	Dodparth:	9/9 set 1												
Mam Dygu:	Cymraeg (Iaith Gyntaf)	Dyddiad:	02/12/2019												
Amcanion Dygu (flocus ar ddygu – defnyddio gerfa dderfawdd): Bydd dysgwyl yn dygu a newid y canlynol: Creu adnodd ar gyfer amgueddfa Hedd Wyn															
Meini Prawf Uwchbilant (wedi eu cytiffu'n glir a phob Amcanion Dygu ac yn gyflwynedig a ghybros a/neu gynnwys dygu) Asesu Dygu'r Dugybllon (Deddfu dygu a dyguwr i'r ddefnyddio'r gwybodaeth/cynnwys i ddefnyddio'r dygu)															

Gwelir lluniau o waith a grëwyd gan grŵp o ddysgwyr yn flwyddyn 9 set 1 yn ystod gwers Cymraeg. Gwelir cynllun gwers ar gyfer creu adnodd Hedd Wyn ar gyfrifiadur yn yr ystafell TGCh. Cafodd y dysgwyr yn dilyn uned a oedd yn arwain at asesiad, cyfle i ddewis dull o gyflwyno adnodd a oedd yn dathlu bywyd Hedd Wyn gan roi canllaw fod rhaid iddynt ei gyflwyno yn electroneg. Mae'n bwysig i hybu cyfathrebu a rhyngweithio effeithiol rhwng dysgwyr gan geisio hybu creadigrwydd. Anodd oedd rheoli a dysgyblu dysgwyr o fewn gofod gwahanol a newydd. Credaf er mwyn gwir datblygu'r sgiliau cymhwysedd digidol o fewn gwersi fod angen i mi roi fwy o fanylder yn fy nghynllun gwers er mwyn wir ddeall y fframwaith a deall yr hyn sydd angen gwneud ar hyn sydd angen i mi weld ar waith yn yr ystafell ddosbarth er mwyn gwir hybu'r sgil.



Blwyddyn 7

Gwelir enghreifftiau uchod o'r adnodd Wakelet a oedd ar gael i flwyddyn 11 set 6 gyda deunyddiau yn ymwneud â'r amgylchedd a blwyddyn 7 a oedd yn ymwneud â'r Nadolig. Yn y ddwy achos roedd rhaid iddynt ymchwilio i'r deunyddiau fel gwaith cartref ar gyfer paratoi at y wers nesaf. Anfantais fwyaf y dull hwn oedd yr anallu i reoli'r canlyniad, roeddwn yn hollol ddibynol ar y dysgwyr i wneud y gwaith cartref er mwyn iddynt allu gwneud y dasg a oedd wedi cynllunio ar gyfer y wers. Gyda'r enghraifft gyntaf (blwyddyn 11 set 6) roedd rhaid i mi gynllunio gwers i ymchwilio i'r deunydd gan nad oeddwn wedi gallu gwneud yn annibynnol felly cynlluniais wers carousel darnau darllen gyda thaflen waith i gyd fynd gyda'r darnau. Felly erbyn gwneud hyn gyda fy mlwyddyn 7 fe wnes sicrhau fod y dysgwyr yn deall beth oedd diben y gwaith cartref gan hefyd roi taflen fel gwaith cartref a gwylio un o'r clipiau a oedd ar y Waklet yn y wers er mwyn enghreifftio sut fyddai modd ei defnyddio ar gyfer y dasg i ddod.

Y NADOLIG!



<https://wke.lt/w/s/5HI6Wz>



Blwyddyn 7 (llythrennedd Atodiad 6)

Ydy pobl yn gor-wario dros y Nadolig?

Ydy pobl yn gor-addurno eu tai?

Ydyn ni'n gor-fwyta dros yr Ŵyl?

Ydych chi'n hoffi hysbysebion Nadolig? Pa rai? Pam?

Ydych chi'n cefnogi unrhyw elusennau dros y Nadolig? Pa rai?

Ydych chi'n poeni am bobl sy'n ddigartref dros y Nadolig?

Ydyn ni'n gwneud digon i warchod yr amgylchedd dros y Nadolig?

Ydy ymddygiad gwrth-gymdeithasol yn broblem adeg y Nadolig? Pam?

Ydych chi'n gwybod am draddodiadau Nadolig diddorol ar draws y byd?

Beth yw'ch barn am WinterWonderland yn Abertawe?

Beth ydych chi'n ei hoffi am y Nadolig?



Cymraeg	Saesneg
ailgylchu	recycle
amgylchedd	environment
gwasttraff	waste
addurniadau	decorations
hysbysebion	advertisements
nwyddau	goods
marchnata	marketing
elusen	charity
gor-fwyta	over eating
gor-dewdra	obesity
ymddygiad gwrth-gymdeithasol	anti-social behaviour
gor-wario	over-spending

Dyma dasg gychwynnol a brif dasg y wers a gynlluniwyd ar gyfer blwyddyn 7 er mwyn datblygu eu sgiliau llafar gan drafod y pwnc 'Y Nadolig'. Maent fel adran wedi cynllunio gwneud rhwng 5-6 o rain o fewn y flwyddyn academiaidd gan ddilyn canllawiau tebyg i'r hyn fydd rhaid iddynt wneud yn ei thrafodaethau grŵp yng nghyfnod TGAU. Mae'r dasg hon yn gysylltiedig â'r enghraifft o'r Wakelet uchod ac felly roedd y cyfyngiadau gyda hynny yn chwarae rôl yn y wers. Mae'r dysgwyr cyn cychwyn ar y dasg yn edrych yn ôl ar ei hunanasesiad diwethaf o'r dasg gan gymryd sylw o'r targed er mwyn datblygu ar hynny yn ystod y drafodaeth newydd. Mae dysgwyr yn cael 10 munud i drafod ac anodd yw gallu asesu pawb ar lawr dosbarth ac felly dyna pam mae cael y dysgwyr i hunanasesu gan rannu enghreifftiau o'u cryfderau a llefydd i wella yn cynorthwyo'r addysgu.

Adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol gan ennyn diddordeb egwyddor 3

Wednesday, October 30, 2019 4:05 PM
Atodiad 7

Ydych chi'n **BAROD**?

1. Eistedd
2. Offer
3. Parod

Mynd am 5

Faint o eiriau neu frawddegau mynegi barn y gallwch chi feddwl amdanynt?

Mynd am bump!

•Beth oedd ar eich meini prawf llwyddiant?

Unigol Ysgrifennu Tawelwch

Ysgrifennwch eiriau sydd yn ymwneud â'r amgylchedd.

Taniwr

Penawdau Bachog



Meddylwch am benawdau bachog ar gyfer y lluniau canlynol. Cofiwch eich bod chi'n ceisio denu sylw darllenwyr!

1

2

3

Gweler yn yr enghreifftiau yma dasgau 'Mynd am 5'. Dyma strategaeth adran ar gyfer codi perfformiad bechgyn ac ymdawelu dosbarth a rhoi disgyblion ar waith o fewn munudau cyntaf y wers yn unigol ac yn ysgrifenedig. Mae'r enghreifftiau uchod yn dangos rhai rwyf wedi ei defnyddio gyda blwyddyn 7, 9 ac 11. Mae'r tasgau yma yn fy marn i yn ymweld i roi ffocws clir i ddisgyblion naill ai drwy adolygu cynnwys y wers flaenorol neu rywbeth a fydd yn ddefnyddiol ar gyfer amser hwyrach yn y wers. Cyn y dasg 'Mynd am 5' mae disgyblion yn gweld y sleid 'Eistedd, Offer, Parod' er mwyn paratoi ar gyfer y wers ac ar gyfer y dasg sydd i ddod. Rhaid iddynt gwblhau hyn o fewn funud, ac mae amser ydd yn cael ei hychwanegu i'r tasgau er mwyn ei wneud yn weledol ac yn fwy real a hysbys i'r dysgwyr. Yn y gorfennol roeddwn heb wneud y strategaeth ac roeddwn wedi gweld newid yn ymagwedd y disgyblion ar ddechrau gwers, nad oeddent wedi ffocysu ar gyfer y wers ac felly ers hynny rwyf yn ceisio amrywio'r dasg ond aros gyda'r terfynau amser a'r dull o gyflwyno.



Dyma enghreifftiau o arsylwadau a geir gan athro yn dilyn gwrs i flwyddyn 8 ar yr uned pethau rhyfedd gyda'r nod o greu cerddi 5 munud. Noder fel cryfder o fewn fy ngwrsi'r gallu i 'actifadu dealltwriaeth flaenorol'. Gwnaed hyn drwy'r tasgau 'Mynd am 5'. Mae'r lluniau yma yn cefnogi'r dull addysgu o ddefnyddio'r 'Mynd am 5' fel gweithgaredd defnyddiol i'r dysgwyr er mwyn datblygu a phellhau dealltwriaeth a pharodrwydd dysgwyr i ddysgu fel dyweda damcaniaethwyr o'r gred lluniadaeth.



Tasg i orffen

Pen : Rhywbeth sydd wedi gwneud i chi feddwl

Calon : Rhywbeth yr ydych wedi teimlo

Bin : Rhywbeth nad oeddech wedi ystyried yn ddiddorol.

Bag : Rhywbeth yr ydych yn mynd i gofio a chymryd o'r wers yma.



Dyma enghraifft o flwyddyn 9 set 1 yn cwblhau gweithgaredd llais y disgybl ar ddiwedd uned o waith a oedd yn arwain at asesiad ffurfiol a phrosiect ar Hedd Wyn. Mae'r dasg yn gwneud i ddysgwyr ystyried gwahanol agweddau o'r broses yn arwain at yr aseiniad. Targed a gefais ar gyfer y tymor nesaf yw amrywio ac arsylwi ar ddulliau casglu data llais y disgybl. Gellir dadlau fod y dasg i raddau bychain wedi bod yn llwyddiannus ond ar y cyfan aflwyddiannus oedd y gweithgaredd. Anodd yw monitro sylwadau gyda'r fath weithgaredd gyda nifer o'r dysgwyr yn gadael bylchau neu'n copïo atebion cyfoedion a nifer yn cwestiynu ac yn gofyn beth allent roi ar y daflen gan leihau ar wir adfyfyriad y dysgwr wrth iddynt fethu a meddwl yn annibynnol. Er nad oeddwn yn credu fod y dasg wedi gweithio roeddwn wedi derbyn adborth defnyddiol o'r ddau flwch ar y gwaelod gan ddysgu am farn dysgwyr ar weithgareddau roeddent wedi ei hoffi a gweithgareddau roeddent am roi yn 'y bin'.

Trafodir yn y traethawd hwn beth yw addysgu a dysgu da gan ganolbwyntio ar egwyddorion addysgegol a nodir gan yr athro Donaldson yn ei adolygiad o Gwricwlwm Newydd i Gymru sef *Dyfodol Llwyddiannus* (2015).

Canolbwyntir yn benodol ar adfyfyrio ar weithrediad y tair egwyddor ganlynol sef asesu ar gyfer dysgu, cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd ac adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol gan ennyn diddordeb. Mae'r egwyddorion uchod yn hanfodol ar gyfer addysgu gwersi sydd yn cael effaith ar ddysgu disgyblion. Dylai asesu ar gyfer dysgu fod ar waith drwy gydol gwersi a gwelir llythrennedd fel un o'r sgiliau trawsgwricwlaidd yn gyson o fewn gwersi Cymraeg sef fy maes addysgu. Fel rhan o ennyn diddordeb y dysgwyr mae'n hanfodol clywed llais y dysgwyr a gellir gwneud hyn yn ysgrifenedig neu ar lafar gan ddefnyddio model Brookfield (1998 a 2005) er mwyn adfyfyrio'n holistig ar yr egwyddor gan felly ddatblygu'n broffesiynol. Rhoddir bwyslais ar ddilyniant ar angen i greu tasgau ac adnoddau sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol sy'n ennyn diddordeb yn yr adolygiad gan Donaldson (2015, t. 67). Dewiswyd y tair egwyddor uchod gennyf oherwydd maent yn sylfaen gadarn i'r broses o addysgu. Mae'n hanfodol i amrywio'r strategaethau asesu gan ddatblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol a gwneud hyn drwy adeiladu ar wybodaeth a phrofiad dysgwyr gan ennyn eu diddordeb.

Nodir yn yr adroddiad *Dyfodol Llwyddiannus* (2015) deuddeg egwyddor ar gyfer addysgu a dysgu da. Mewn cyferbyniad i hyn mae llyfr Allison a Tharby (2015) yn nodi chwe egwyddor ar gyfer addysgu a dysgu da. Yr hyn a welir yw asesu ar gyfer dysgu wedi ei rhannu yn egwyddorion unigol megis modelu, cwestiynu ac adborth yng ngwaith Allison a Tharby. Dyweda Allison a Tharby "through the application of these six principles, the ultimate goal is to lead students towards independence" (2015, t. 9). Yn wahanol rhoddir ffocws ar godi safonau ac uchelgais drwy asesu ar gyfer dysgu yn adroddiad Donaldson a gwaith Wiliam a Black (1998) yn hytrach nac annibyniaeth fel noda Allison a Tharby. Mae Dylan Wiliam yn amlygu ei hun yn amlwg yn y llenyddiaeth sy'n trafod asesu ar gyfer dysgu. Gellir gweld dylanwad Wiliam ar adroddiad Donaldson wrth iddo drafod asesu ar gyfer dysgu fel egwyddor addysgegol effeithiol ar gyfer addysgu a dysgu da. Dyweda Donaldson fod asesu ar gyfer dysgu yn "helpu dysgwyr i godi safonau a meithrin uchelgais" (2015, t. 68) yn ei adroddiad. Yn debyg dyweda Wiliam a Black "all of these studies show that innovations which include strengthening the practice of formative assessment produce significant, and often substantial, learning gains" (1998, t. 3).

Ond beth yw asesu ar gyfer dysgu effeithiol? Cyfeiria Donaldson at Wiliam yn yr adroddiad gan ddweud ei fod yn "awgrymu bod asesu effeithiol gan athrawon yn gallu 'dyblu' cyflymer y dysgu" (2015, t. 68). Yn ôl *What makes great teaching?*:

in order to judge the effectiveness of their teaching, teachers need to have access to assessment that reflect the learning they are trying to promote, ...that cover the full range of curriculum areas and levels, and that are cheap and easy to administer on a frequent basis' (Coe et al. 2014, t. 48).

Yn ogystal gwelir uchod cyfeiriad at y ffaith fod angen i asesu fod ar waith yn aml, mae Wiliam yn cyfeirio at hyn yn ei waith ef *Embedded formative assessment* gan ddweud "the shorter the assessment-interpretation action cycle becomes, the greater the impact on student achievement" (2018, t. 51). Ymhellach cyfeiria Wiliam, Allison a Tharby, Donaldson ac awduron eraill megis Clarke (2005) a Hattie (2008) at yr un strategaethau ar gyfer datblygu asesu effeithiol sef cwestiynu amrywiol, modelu, nodau ac amcanion gan gynnwys yr angen ar gyfer meini prawf

llwyddiant, hunanasesu ac asesu cyfoedion, a phwysigrwydd rôl adborth a chyfle i ymateb i adborth ar waith yn yr ystafell ddosbarth. Does dim consensws yn y llenyddiaeth ar anfanteision yr egwyddor ond er hyn gwelir trafodaethau pellach ar anfanteision rhai o'r strategaethau sy'n dod o dan asesu ar gyfer dysgu a ffocysir ar hyn yn rhan adfyfyriol y traethawd hwn. Wrth grynhoi felly mae rhaid bod asesu ar gyfer dysgu yn digwydd yn aml gan ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau er mwyn hybu dysgu effeithiol o fewn yr ystafell ddosbarth.

Dyweda Hayes am yr ail egwyddor "most definitions of cross-curricular work- also know as curriculum intergration- emphasise how combination of subjects are used within project or thematic work" (2010, t. 382). Yn yr un ffordd mae fy ysgol lleoliad yn defnyddio'r thema 'arwyr' ar draws y pynciau a fydd yn dod o dan yr un maes dysgu a phrofiad sef y Gymraeg, Saesneg ac Ieithoedd Modern i flwyddyn saith gan hefyd wneud pecyn cydadrannol sy'n dwyn y teitl 'Cadwynau fy iaith'. Yn wahanol mae'r athro Donaldson yn rhoi ffocws ar ddatblygu'r sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol o dan y teitl trawsgwricwlaidd. Gwelir hyn yn achos teitl un o'r egwyddorion addysgegol, "drwy addysgu a dysgu da bydd y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, yn cael eu cryfhau'n gyson a chyfleoedd yn cael eu darparu i'w harfer" (2015 t. 68).

Fel athrawes iaith mae gwahaniaethu rhwng llythrennedd ac iaith yn her. Diffinnir llythrennedd yn ôl Geiriadur Prifysgol Cymru fel "y gallu i ddarllen ac ysgrifennu" (1987) ac iaith fel 'cyfangorff y geiriau a arferir gan genedl ...neilltuol, ynghyd â'r dulliau o'u cyfuno, wrth siarad neu wrth ysgrifennu, i fynegi syniadau, teimladau, anghenion" (1981). O fewn y fframwaith llythrennedd nodir y sgiliau darllen, ysgrifennu, gwrando a llafaredd ac felly anodd yw gwahaniaethu rhwng y diffiniadau o iaith a llythrennedd fel y darllenir uchod. Yn yr un modd dadleua Hayes fod yn haws gwneud cysylltiadau rhwng rhai agweddau yn hytrach nac agweddau eraill, er enghraifft os ydyn yn dilyn diffiniad Hayes o 'drawsgwricwlaidd', "links between music and geography are likely to be more difficult to create naturally than those between science and design and technology" (2010, t. 384). Tynnir sylw at gyfeiriad Hayes at y syniad o greu cysylltiadau yn naturiol yn drawsgwricwlaidd, her arall a nodir Donaldson yn ei adroddiad yw'r gallu i gymhwyso'r cyfrifoldebau yma "mewn ffordd naturiol a dilyys yn hytrach nag fel elfennau ychwanegol" (2015, t. 69). Cyflwynna Rose pryderon athrawon am golli craidd y pwnc fel her arall ond dadleua:

cross-curricular studies was reported in some circles as 'abolishing subjects' ...subject disciplines remain vital in their own right, and cross-curricular studies strengthen the learning of the subjects which make up its content. From the standpoint of young learners, making links between subjects enriches and enlivens them' (Rose, 2009, t. 3).

Gan dderbyn hynny crynhoia Hayes ei erthygl gan ddweud yn sgil adolygiad Rose o'r Cwricwlwm Cenedlaethol "cross-curricular work should be used to strengthen the six areas of learning has many attractions for practitioners and as a means of enhancing children's learning" (2010, t. 385).

Yn olaf trafodir fy nhrydedd egwyddor sef adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol gan ennyn diddordeb. Cynigia Robinson ac Aronica mae rôl yr athro yw "to engage, inspire, and enthuse students by creating conditions in which those students will want to learn" (2015, t. 104). Dywed "Children are naturally curious. Stimulating learning means keeping their curiosity alive... so that they are inspired to explore" (Robinson ac Aronica 2015, t. 107). Gellir cysylltu hyn wrth ystyried ymchwil damcaniaethwyr megis Piaget a Dewey yn y maes o adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol gan ennyn diddordeb a grynhwir mewn erthygl gan Gangwar a Savita (2017). Dywed yn yr

erthygl “Piaget believed that humans learn through the construction of one logical structure after another... Dewey called for education to be grounded in real experiences... Inquiry is a key part of constructivist learning” (2017, t. 71). Diffinnir porth termau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yr ysgol o feddwl 'lluniadaeth' fel “y damcaniaeth gyffredinol... bod amgyffred wedi'i seilio ar bytiau o wybodaeth o'r ymennydd neu'r synhwyrau sydd ynddynt eu hunain yn bytiau o wybodaeth a luniwyd ynghynt” (2019). Ceir ddyfyniad sy'n cwmpasu sail yr egwyddor yn yr erthygl sef:

a constructivist approach encourages teachers to value and build upon all students' existing knowledge... when students are recognized as possessing important knowledge, they are more likely to feel motivated, connected and confident. This positions them to engage in successful learning' (Gangwar a Savita 2019, t. 72).

Mewn casgliad yr hyn a ddisgrifir fel y manteision yn yr erthygl yw bod y theori yn ateb yr anghenion i adeiladu ar wybodaeth flaenorol gan hybu athrawon i dreulio amser i ffocysu ar wybodaeth bwysig ac angenrheidiol gan gyfeirio at dopigau o ddiddordeb i'r dysgwyr. Ond a yw'r strategaeth o geisio deall gwybodaeth a phrofiadau blaenorol bob dysgwr yn ormod o her i athrawon? Cyniga'r erthygl hyn fel anfantais i'r theori gan ddweud “teachers are unable to customize the curriculum to each student, as their prior knowledge will vary” (2019, t. 73). Ond nid yw hyn chwaith yn tanseilio'r angen i athrawon diwallu'r addysgu ar gyfer pob dysgwr er mwyn sicrhau cynnydd, fel dyweda Halfpenny a Pettersen “the role of the teacher is to support children in constructing their own knowledge by guiding their experience” (2014, t. 153). Yn yr un ffordd dyweda Donaldon “bydd athrawon yn gallu dewis dulliau addysgu a dysgu sy'n datblygu o gam i gam ond sydd hefyd, er hyn, yn rhoi cryn ryddid i gynnig profiadau deniadol sy'n cwrdd ag anghenion eu plant a'u pobl ifanc” (2015, t. 67).

Yn rhan nesa'r traethawd ffocysir ar gasgliadau ynglŷn â'm cynnydd o ran gweithredu ar yr egwyddorion uchod. Gellir gweld yn atodiad 1 enghreifftiau o hunanasesu ar ddiwedd asesiad. Yn fy ngwersi cynnar roeddwn yn defnyddio dulliau Shirley Clarke (2005) i sicrhau fod dysgwyr yn gweld y cysylltiad rhwng creu meini prawf llwyddiant a hunanasesu “if students have copied the success criteria under the title of their work, they can... colour code... work at the end” (2005, t. 111). Ond wrth ddefnyddio dulliau Black a Wiliam et al. (2004) fe wnes i ychwanegu i'r broses wrth roi “opportunities for pupils to follow up comments” (2004, t. 9), gan ychwanegu cyfle i ddysgwyr roi adborth ei hun ar y gwaith drwy ddefnyddio'r dull dwy seren a dymuniad. Mae dysgwyr felly yn cael eu gorfodi i bob pwrpas i wir ystyried eu cynnydd gan hefyd roi ystyriaeth i dargedau gyda'r gobaith y bydd hyn yn ysgogi datblygiad pellach.

Ffocysir ar gwestiynu yn yr ail atodiad. Roedd dod i adnabod enwau disgyblion yn her, felly penderfynais ar ddefnyddio cyfuniad o ffyn loli a chynlluniau bwrdd er mwyn dod i adnabod fy nosbarth. Roedd hyn yn dilyn argymhellion ar ôl gwylio rhaglen ddogfen gan y BBC *The classroom experiment* (Wiliam, 2010). Ond wrth geisio datblygu ar hyn gan sicrhau fod digon o amser gyda dysgwyr i feddwl am ymatebion wrth gymryd nodyn o bryder Wiliam am “short ‘wait time’” (2004, t. 5) penderfynais i amrywio'r dechneg gan ddefnyddio gwefan classtools. Er hyn credaf fod rhai o'r adnoddau ar gael ar y wefan yn arafu'r wers yn ormodol weithiau gan leihau'r nifer o ddysgwyr y gellir eu cwestiynu o fewn wers 50 munud.

Yr atodiad olaf o fewn yr egwyddor asesu ar gyfer dysgu gwelir defnydd o oleuadau traffig. Bu i mi dreialu hyn yn gyntaf ar ddiwedd gyfres o wersi gan ddilyn yr hyn a oedd gan Clarke (2005) i ddweud am ei defnydd ar gyfer asesu dealltwriaeth. Roedd yr un peth yn wir am ei datganiad arall sef “the comparison effect is explicitly set up. At

a glance students can see how they appear to be doing compared to others” (2004, t. 116). Felly er mwyn newid hyn penderfynais sicrhau fod gan bob dysgwr set o oleuadau traffig ei hun ar gyfer y wers gan roi cyfle iddynt fonitro cynnydd ei hunan yn ystod y wers wrth ysgrifennu ei adroddiad gan ddefnyddio dulliau Black a Wiliam et al. “pupils to use “traffic light” icons, labelling their work... whether they think they have good, partial or little understanding” (2004, t. 11).

Her o'r mwyaf oedd ceisio cyflwyno agweddau o gymhwysedd digidol, fel rhan o fy nghyfrifoldebau trawsgwricwlaidd, mewn gwersi ar y dechrau. Wnaed hyn ar lefel syml i gychwyn gan osod gwaith cartref i ymchwilio i ddeunydd a roddir ar y rhaglen Wakelet (gweler atodiad 5). Anfantais gwneud hyn oedd yr anallu i brofi faint o'r deunyddiau roedd y dysgwyr wedi darllen, os oeddent wedi o gwbl, gan nad oeddwn wedi cynllunio ffordd o ymateb i'r gwaith cartref. Dyweda Hague a Payton:

Where internet research is set as homework,... the teacher may need to actively design tasks and projects so that they require students to critically engage with the material they are finding. (2010, t. 36).

Yn dilyn hyn penderfynais fod angen creu adnodd a oedd yn galluogi i ddysgwyr gofnodi a gweld gwerth i'r darllen gan hefyd, yn y wers yn dilyn y gwaith cartref, chwarae un o'r clipiau o'r Waklet gan enghreifftio sut fyddai modd defnyddio hynny yn y dasg.

Edrychir nesaf ar yr agwedd o gynhyrchu yn y fframwaith gan edrych ar gynllunio, cyrchu a chwilio, a chreu. Dywed Hague a Payton “Creativity is about more than just artistic ability, it is also about how we think and how we construct and share knowledge” (2010, t. 24). Edrychir ar atodiad 4, wrth adfyfrio ar y profiad cyn y wers a welir yn y cynllun gwers roedd dysgwyr wedi cael cyfle i gynllunio ei adnodd fel grŵp gan greu meini prawf llwyddiant. Ffocysir felly ar yr agwedd o greu. Fy rhesymeg am wneud hyn oedd clymu'r hyn a oeddent wedi dysgu yn dilyn tasg asesu, fel dywed Hague a Payton “Create – This involves students thinking creatively and creating an output or artefact which reflects and conveys what they have learned” (2010, t. 48). Mae rheoli dosbarth o fewn gwagle gwahanol yn her ond erbyn yr ail wers i mi ddysgu yn yr ystafell TGCh ystyriais yr hyn a ddyweda Coe et al. am “the need to create a classroom that is constantly demanding more” (2014, t. 3). Felly yn dilyn hyn penderfynais ar ddechrau'r wers gofyn i'r dysgwyr gosod nod ac amcanion y wers, a hanner ffordd drwy'r wers cwestiynu hyn eto gan geisio annog dysgwyr i weithio i derfynau eu hun.

Gweler tystiolaeth o lythrennedd yn atodiad 6. Fe wnaed y wers hon ddwywaith gyda dau ddosbarth gwahanol o fewn blwyddyn saith. Defnyddir yma'r dull cyfathrebol o addysgu iaith gyda ffocws ar agweddau o lafared. Ffocysir ar allu siarad, gwrando a chydweithio a thrafod y dysgwyr yn ystod y wers. Gan ddilyn y dull “formulaic language principle” (Anhysbys, t. 10) lle mae angen dysgu iaith batrymog, adeiladais ar yr hyn oedd disgyblion yn gwybod yn barod am iaith mynegi barn. Yn dilyn y wers y tro gyntaf sylweddolais fod geirfa yn broblem a hefyd fod dim lefel o gymorth neu her i ysgogi trafodaeth ymysg y disgyblion. Felly penderfynais greu cardiau her a chymorth gan hefyd greu gweithgaredd geirfa drwy ddefnyddio'r adnodd TaskMagic. Gan geisio osgoi'r hyn a ddyweda Allison a Tharby am herio ‘It is unfortunate that all too often challenge is presented in the context of “challenging the most able” (2015, t. 14), penderfynais osod y cardiau her ynghanol bob bwrdd gan annog pawb i roi cynnig ar eu defnyddio. Gweler cynnydd yn gallu disgyblion i ddal trafodaeth yn eithaf cywir yn yr iaith gan wneud defnydd o'r eirfa a chystawennau cywir yn ystod y dasg.

Yn ystod fy ngwersi cynnar roeddwn yn cyflwyno tasgau ‘Mynd am 5’. Dyma strategaeth a gyflwynodd yr adran ar gyfer codi perfformiad bechgyn ac ymdawelu dosbarth. Y syniad yw bod dysgwyr ar dasg yn syth wrth ddod i

mewn i'r dosbarth gan weithio'n annibynnol am bum munud gan hefyd sicrhau fod yna elfen o ysgrifennu ynghlwm i'r dasg. Yn fy ngwersi cynnar roeddwn yn gwneud tasgau a oedd yn eithaf syml a oedd ddim yn herio'r disgyblion i feddwl ac roedd nifer yn gorffen tasgau ymhell cyn diwedd y pum munud. Felly gan ddilyn dull lluniadol awgrymir fod angen gadael i "students to work at their own pace to draw on their prior knowledge and to make meaning on their own terms as they learn" (Gangwar a Savita, 2019, t. 72). Gellir dadlau, wrth roi pum munud iddynt a chyflwyno 'Mynd am 5' sy'n adolygu'r wers flaenorol fod dysgwyr yn cael amser i ddwyn i gof wybodaeth flaenorol er mwyn adeiladu arno yn ystod y wers. Gwelir hyn fel cryfder (atodiad 8) yn fy ngwersi diweddarach.

Yn ychwanegol er bod rôl gan yr athro i ennyn diddordeb dysgwyr gan hybu meddylfryd adeiladol (Dweck, 2012) mae Flutter (2007) yn cyfeirio at lais y disgybl yn natblygiad proffesiynol yr athro gan awgrymu wrth ddysgu am farn dysgwyr yn dilyn profiad gallwn sicrhau ffordd o ennyn diddordeb dysgwyr mewn profiadau newydd i ddod. Yn atodiad 9 gweler enghraifft o weithgaredd llais y disgybl gan annog dysgwyr i feddwl am yr hyn a oedd yn ddefnyddiol, yn andefnyddiol, rywbeth a oedd wedi ysgogi iddynt feddwl a rhywbeth roeddent wedi ei deimlo yn ystod y profiad. Mae Flutter hefyd yn feirniadol o'r broses gan ddweud "a frequently cited criticism of pupil voice in relation to teacher development is that... it is often only the more articulate, confident learners whose views are heard" (2007, t. 349). Wrth edrych yn ôl ar ymatebion y dosbarth roedd yn glir bod nifer wedi rhoi'r un sylwad a'i cyfoedion a rai heb ymateb i bob blwch gan felly gwneud y broses i ryw raddau yn aflwyddiannus. Felly wrth symud ymlaen er mwyn gwneud cynnydd ar hyn rhaid i mi ystyried ffurf wahanol ac amrywiol o gasglu llais y disgybl er mwyn cael wir effaith ar ennyn diddordeb dysgwyr.

Er mwyn parhau i ddatblygu yn y meysydd uchod holl bwysig yw parhau i ymchwilio a gwneud darllen estynedig ar ddatblygiadau yn y sector addysg. Er mwyn datblygu ar yr egwyddor o asesu ar gyfer dysgu, fe fyddaf yn rhoi ffocws ar adborth i ddysgwyr. Roeddwn wedi cael blas ar wneud hyn tuag at ddiwedd y tymor a gobeithiaf i ddatblygu'r adborth rwy'n rhoi i ddysgwyr gan sicrhau eu bod gallu ymateb i'r adborth. Gydag ystyriaeth i'r hyn sydd gan Wiliam a Black i ddweud, "Feedback... should be about the particular qualities... with advice on what he or she can do to improve" (1998, t. 9). Mae'n bolisi adrannol i osod adborth yn ddull dwy seren a dymuniad gan sicrhau fod y dymuniadau ar ffurf cwestiwn er mwyn i ddysgwyr ymateb iddynt mewn lliw beiro gwahanol.

Yn ychwanegol targed a gefais yn fy nyddlyfr dysgu yw'r angen i ddatblygu ar fy sgiliau cwestiynu. Er bod nifer o'r athrawon yn nodi fod gennyf allu cwestiynu effeithiol rhaid i mi ddatblygu'r sgil o geisio ymestyn ymatebion dysgwyr drwy gwestiynu. Fel dywed Allison a Tharby pwrpas cwestiynu yw "so that... students are made to think hard with breadth, depth and accuracy" (2015, t. 7). Felly wrth gynllunio fe fyddaf yn ceisio gwneud nodyn o'r prif gwestiynau a fyddaf yn gofyn yn ystod y wers gan roi ystyriaeth i is gwestiynau er mwyn annog dysgwyr i ymestyn ar ymatebion er mwyn i mi weld eu gwir ddealltwriaeth.

Yn gysylltiedig â'r egwyddor rwyf am ddatblygu fy ngallu i greu cysylltiad rhwng creu meini prawf llwyddiant gyda tasgau, yn enwedig gyda blwyddyn saith. Cyn gwneud tasg estynedig rydym yn creu fel dosbarth meini prawf llwyddiant a thrwy wneud tasgau 'Mynd am 5' mae modd atgyfnerthu hyn ar ddechrau gwers cyn iddynt ddechrau neu barhau gyda'r dasg gan ofyn iddynt ystyried beth oedd ar ei meini prawf llwyddiant. Mae Shirley Clarke yn datgan "we know it is important for students to know the final product or outcome expected of a long-term learning objective" (2005, t. 29) ac felly wrth bwysleisio'r cysylltiad ac ail ymweld â'r meini prawf yn aml gobeithiaf y bydd y dysgwyr yn gweld pwrpas a defnydd hyn wrth iddynt gwblhau tasgau.

Rhestr gyfeirio

Allison, Sh. a Tharby, A. (2015) *Making every lesson count: six principles to support great teaching and learning*. England: Crown House Publishing.

Anhysbys, *What is the Principled Communicative Approach?* Ar gael: <https://docs.wixstatic.com/ugd/ba734f75330b405c284d38bd4760b35c99ad49.pdf?index=true> (Cyrchwyd: 21 Rhagfyr 2019).

Black, P. a Wiliam, D. (1998) *Inside the black box: raising standards through classroom assessment*. London: GL Assessment.

Black, P. et al. (2004) *Working inside the black box: assessment for learning in the classroom*. London: NFER.

Black, P. et al. (2007) *Assessment for Learning*. Maidenhead: McGraw-Hill Education.

Brookfield, S. (1998) 'Critically Reflective Practice', *The Journal of Continuing Education in the Health Professions*, 18(4), tt. 197-205.

Clarke, S. (2005) *Formative assessment in the secondary classroom*. London: Hodder Murray.

Coe, R. et al. (2014) *What makes great teaching? Review of the Underpinning Research*. Durham: Center for Evaluation and Monitoring/The Sutton Trust.

Coleg Cymraeg Cenedlaethol (2019) diffiniad *lluniadaeth*. Ar gael: <http://www.colegcymraeg.ac.uk/en/resources/termau/#Lluniadaeth> (Cyrchwyd: 21 Rhagfyr 19).

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus*. Ar gael: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf>. (Cyrchwyd: Awst 2019).

Dweck, C. (2012) *Mindset*. London: Robinson.

Flutter, J. (2007) 'Teacher development and pupil voice', *The Curriculum Journal*, 18(3), tt. 343-354.

Gangwar, B. a Savita (2017) 'Constructivist Approach in Teaching Learning', *Deliberative Research*, 34(1), tt. 71-74.

Geiriadur Prifysgol Cymru (1981 a 1987) Diffiniad *iaith* a *llythrennedd*. Ar gael: <http://welsh-dictionary.ac.uk/gpc/gpc.html> (Cyrchwyd: 20 Rhagfyr 19).

Hague, C. a Payton, S. (2010) *Digital literacy across the curriculum*. Ar gael: <https://www.nfer.ac.uk/publications/FUTL06/FUTL06.pdf> (Cyrchwyd: 22 Rhagfyr 19).

Halfpenny, M. a Pettersen, J. (2014) *Introducing Piaget: a guide for practitioners and students in early years education*. Efrog Newydd: Routledge.

Hattie, J. (2008) *Visible Learning: A Synthesis of over 800 Meta-analyses Relating to Achievement*. Efrog Newydd: Routledge.

Hayes, D. (2010) 'The seductive charms of a cross-curricular approach', *Education 3-13*, 38 (4), tt. 381-387.

Llywodraeth Cymru (2018) Fframwaith cymhwysedd digidol. Ar gael: <https://hwb.gov.wales/storage/e0e946e8-2520-4d86-b686-941a48269e1b/fcd-blynyddoedd-7-i-9.pdf> (Cyrchwyd: 22 Rhagfyr 19).

Richards, J. (2006) *Communicative Language Teaching Today*. Lloegr: Cambridge University Press.

Robinson, K. a Aronica, L. (2015) *Creative Schools*. Deyrnas Unedig: Penguin.

Rose, J. (2009) *Independent review of the primary curriculum: Final report*. London: DCSF Publications.

The classroom experiment (2010) BBC Two, 4 December. Ar gael: <https://www.bbc.co.uk/programmes/b00v3fk1> (Cyrchwyd Hydref 19).

Wiliam, D. (2018) *Embedded formative assessment* 2nd Ed. Indiana : Solution Tree Press 2018.